

## MORGAN, HYWEL RHODRI (1939 - 2017), gwleidydd

**Enw:** Hywel Rhodri Morgan  
**Dyddiad geni:** 1939  
**Dyddiad marw:** 2017  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** gwleidydd  
**Maes gweithgaredd:** Gwleidyddiaeth a Mudiadau Gwleidyddol  
**Awdur:** Ioan Phillips

Ganwyd Rhodri Morgan ar 29 Medi 1939 yng Nghaerdydd, yn ail fab i **Thomas John ('T.J.') Morgan**, darlithydd prifysgol, a'i wraig Huana (g. Rees, 1906-2005), athrawes. Ganwyd ei frawd Prys yn 1937. Roedd gan y teulu gefndir academaidd a gwleidyddol cryf. Bu tad Huana, John Rees, yn gynghorydd plwyf yn Abertawe, a chwaraeodd ei thad-cu, Thomas, ran flaenllaw ym mudiad radicalaidd y ffermwyr tenant. Ni fu T.J. yn weithredol yn wleidyddol, ond yn sgil ei gefndir academaidd adwaenai nifer o ddeallusion blaenllaw yn y mudiad Llafur - yn enwedig yr economegydd **Hilary Marquand**.

Magwyd Rhodri yn Radur, ardal o Gaerdydd a osgôdd gyni gwaethaf yr Ail Ryfel Byd, ond ni fu ei flynyddoedd cynnar yn rhydd o gwbl. Yn blentyn gwanlyd, bu bron iddo farw o niwmonia yng ngaeaf 1942. Serch hynny, roedd gweddill ei blentyndod, fel y cofiodd ei frawd Prys, 'yn llawn hwyl a sbri'. Mynychodd y brodyr Morgan ysgol y cyngor yn Radur, yn wahanol i lawer o'u cyfoedion a fynychai ysgol breifat Eglwys Gadeiriol Llandaf gerllaw. Yn ysgol Radur y daeth yr arwyddion cyntaf o allu deallusol Rhodri i'r amlwg, a symudwyd ef i fyny i'r un dosbarth â'i frawd a oedd ddwy flynedd yn hŷn. Cafodd Rhodri ei addysg uwchradd yn Ysgol Ramadeg yr Eglwys Newydd, lle'r enillodd ysgoloriaeth agored i astudio leithoedd Modern yng ngholeg St Ioan, Rhydychen. Aeth y ddau frawd i'r coleg hwnnw yr un flwyddyn, ond ni chafodd Rhodri fawr ddim lles o Rydychen. Wedi ei ddadurithio gydag leithoedd Modern, newidiodd i Wleidyddiaeth, Athroniaeth, ac Economeg (PPE) wedi cwta ddau dymor. Roedd yn gas ganddo ffurfioldeb rhwysgfwaw ac ymhongarwch y coleg, a chofiodd yn ddiweddarach iddo deimlo'n agosach at hen borthor nag at Lywydd y coleg. Serch hynny, graddiodd gydag arnydedd ail ddosbarth - digon iddo fynd i Harvard i wneud cwrs Meistr mewn Llywodraeth.

Pan ddychwelodd o Harvard yn haf 1963 cafodd swydd gyda Chymdeithas Addysg y Gweithwyr (WEA). Yn nes ymlaen yn yr un flwyddyn, ymunodd â'r Blaidd Lafur - a thrwy'r blaidd y bu iddo wrdd â'i ddarpar wraig, Julie Edwards (g. 1944). Fe'u priodwyd ar 22 Ebrill 1967, wedi carwriaeth dair blynedd a atgyfnerthwyd gan weithredu ac ymgyrchu.

Ar ôl i Morgan adael y WEA aeth dau ddegawd heibio cyn iddo ddod yn AS. Ac eto roedd y daith yn gyflymach o lawer i gynweithwyr eraill y WEA, fel ei hen gydeitywr - a darpar arweinydd Llafur - Neil Kinnock. Yr esboniad am hynny oedd awydd Morgan i wneud amser ar gyfer ei deulu cynyddol: wedi genedigaethau'r ddwy ferch, Mari a Siani, mabwysiadwyd mab, Stuart. Trwy gyfnodau fel swyddog ymchwil i lywodraeth leol a chanolog (1965-71), fel ymgynghorydd economaidd i'r Adran Fasnach (1972-74), fel swyddog datblygu diwydiannol i Gyngor Sir De Morgannwg (1974-80), ac fel pennaeth y wasg yng Nghymru i'r Comisiwn Ewropeaidd (1980-87), llwyddodd i aros yng Nghaerdydd, gan ymhel â gwleidyddiaeth yr un pryd - er fel gwas sifil diduedd.

Ond roedd atyniad gwleidyddiaeth bleidiol yn rhy gryf. Yn 1985, etholwyd Julie i Gyngor Sir De Morgannwg, a bu hynny'n sbardun i Rhodri geisio sedd seneddol. Yn y pen draw penderfynodd dargedu Gorllewin Caerdydd, sedd a gynhwysai erbyn hynny ei bentref genedigol, Radur. Yn etholiad cyffredinol 1987 enillodd y sedd oddi ar y Ceidwadwyr gyda mwyafrif o fwy na 4,000 o bleidleisiau. Buan y daeth y newyddian huawdl o Gaerdydd yn ffefryn gan y wasg. Adolygodd y *Times* areithiau cyntaf aelodau newydd 1987, gan osod Rhodri Morgan yn gydradd gyntaf.

Llenwyd gweddill ei flwyddyn gyntaf yn AS gan waith pwyllgor, yn aelod o Bwyllgorau Sefydlog y Mesur Tai, y Mesur Preifateiddio Dur, a'r Mesur Cyllid blyneddol. Oherwydd ei ddawn craffu cafodd le ar y tîm Ynni cysgodol.

Roedd Senedd 1992-97 yn galetach i Morgan, a oedd erbyn hynny'n isweinidog cysgodol Cymru. Roedd llewyrch yr AS newydd wedi pylu, ac yntau erbyn hynny'n ymwybodol iawn o'i berthynas bigog â rhai blaenllaw o amgylch arweinydd newydd y blaidd, Tony Blair. Oherwydd hynny, ffigwr ymylol oedd Morgan yn nhrefodaethau lefel uchel y blaidd am ddatganoli.

Pan enillodd Llafur ei buddugoliaeth ysgubol yn etholiad cyffredinol 1997, disgwyliid i Rhodri Morgan gael swydd mainc flaen yn y Swyddfa Gymreig. Siom fawr oedd ei hepgor o fainc flaen Blair, ond rhoddodd hwb i'w yrfa, yn lleol ac yn genedlaethol. Tyrrodd ei gydaelodau seneddol yn gefn iddo, gan ei ethol yn gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (PAC), swydd a ddefnyddiodd i beri embaras i lywodraeth Blair dros ei pherthynas â'r gŵr mawr Fformiwa Un, Bernie Ecclestone a'i defnydd o sbin. Enillodd yr ymdrechion hyn wob 'Inquisitor of the Year' y *Spectator* iddo yn 1998.

Agorodd llwybr gyrfa i ffrwdd o San Steffan iddo yn sgil llwyddiant refferendwm datganoli Cymru 1997. Ac yntau wedi bod yn ddatganolwr brwd erioed, roedd Morgan yn benderfynol o arwain Llafur yn y cynulliad newydd. Yn 1998, safodd yn erbyn Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Ron Davies, am arweinyddiaeth y blaidd yng Nghymru. Davies a enillodd, ond cafodd ei danseilio gan ei 'eiliad o wallgofrwydd' drwgenwog ar Gomin Clapham. Gwysiodd Stryd Downing olynnydd Davies fel Ysgrifennydd Gwladol, Alun Michael - Blairydd dibynadwy - i wrystro Rhodri Morgan. Roedd grym ariannol a gwleidyddol Millbank yn drech, a cholodd Morgan am yr eildro.

Ni allai Michael osgoi'r canfyddiad mai 'powl Blair' ydoedd, a bu hyn yn niweidiol i Lafur yn etholiadau cyntaf y Cynulliad yn 1999 - yn enwedig yn ei chadarnleoedd traddodiadol yn nghymoedd y De. Er i Michael lwyddo i fynd yn Brif Ysgrifennydd, bu'n bennaeth ar lywodraeth leiafrifol. Mewn ymgais i osgoi anghydfod mewnol, cynigiodd Michael y portffolio datblygu economaidd i Morgan.

Prif bwnc y dadleuon ym misoedd cyntaf y Cynulliad oedd y cwestiwn a fyddai arian newydd yn dod gan y Trysorlys i gyfateb i'r £300 miliwn ychwanegol y flwyddyn a glustnodwyd ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd gan yr Undeb Ewropeaidd - a elwir yn gyffredin yn arian Amcan Un. Oherwydd diffyg addewid am arian cyfatebol o Lundain cynigiodd y gwrthbleidiau bleidlais diffyg hyder yn erbyn Alun Michael. Ymddiswyddodd Michael cyn iddynt bleidleisio ar y cynnig.

Enwebwyd Rhodri Morgan yn unfryd gan y Cabinet fel olynnydd Alun Michael. 'The job sort of fell into my lap,' meddai (Morgan, 180). Bu'n rhaid i Tony Blair ei hun dalu teyrnged i arweinydd newydd Llafur yng Nghymru. Ond ni chafwyd unrhyw orfoleddu gan y Prif Ysgrifennydd newydd. Roedd Morgan yn ymwybodol iawn o sefyllfa rifyddol wan Llafur yn y Cynulliad ac o ddrwgdybiaeth y cyhoedd o'r sefydliad newydd (Morgan, 182). Heb fawr o oedi aeth â Llafur i glymblaid gyda Democratiaid Rhyddfrydol Cymru. Gwelai eu harweinydd yn y Cynulliad ar y pryd, Michael German, fod y cytundeb yn adlewyrchu'r gwirioneddau gwleidyddol hyn: 'It was important to show the people of Wales that [their] politicians could work together.'

Llwyddodd Morgan i roi terfyn ar y chwarae cyd-ddinistriol rhwng y pleidiau a oedd wedi gwneud y Cynulliad yn destun gwawd cenedlaethol, ac ar yr un pryd darbyllwyd sylwbeuwr gelyniaethus gan ymateb ei lywodraeth i lifogydd ac i haint y traed a'r genau fod pobl Cymru yn gallu ymdopi drostynt eu hunain (Carwyn Jones). Ategwyd yr argraff hon gan y newid yn nheiti swyddogol Rhodri Morgan i 'Prif Weinidog'.

Dan ei deiti newydd rhoddodd Morgan arweinyddiaeth lygatgraff yn dilyn ymosodiadau terfysgol 9/11. Ac yntau'n ymwybodol o botensial yr ymosodiadau i gorddi tensiynau ethnig a chrefyddol yng Nghymru, aeth ati'n ddi-oed i ddod ag arweinwyr yr holl gymunedau fydd at ei gilydd mewn partneriaeth ffurfiol. Mae'r trefniant hwnnw'n parhau hyd heddiw dan yr enw Fforwm Cymunedau Ffrydd.

Wrth i ddatganoli brofi ei werth mewn rheolaeth argyfwng, roedd Morgan yn awyddus i weld math gwirioneddol 'Gymreig' o hunan-lywodraeth. 'Clear Red Water' oedd y weledigaeth a fynegwyd ganddo mewn araith gyweirnod ym Mhrifysgol Abertawe yn Rhagfyr 2002 - er iddo anghofio defnyddio'r ymadrodd hwnnw ar y noson mewn gwirionedd oherwydd ei ddull idiosyncratig o areithio heb baratoi sgript ymlaen llaw. Ymwrthodai'r gred hon â phwyslais Llafur Newydd ar gystadleuaeth, gan ddatlaid mai cymunedoliaeth oedd y ffordd orau o ateb anghenion demograffaidd ac economaidd arbennig Cymru. 'Mae'n golygu gwneud pethau yn y ffordd Gymreig,' honnodd Morgan.

Roedd dylanwad 'Clear Red Water' i'w weld ym manifest Llafur ar gyfer etholiadau'r Cynulliad 2003, gyda diddymu tâl presgriptiwn a gwrthod ffioedd dysgu ategol i'r prifysgolion ymhlith y prif addewidion. Yn sicr roedd y ddogfen yn fwy wrth fodd pleidleiswyr Cymru na'r ymgais yn 1999 a osodwyd ar y blaidd gan Lundain. Yn sgil tro dau bwynt i Lafur daeth Rhodri Morgan yn ei ôl am ail dymor - y tro hwn yn bennaeth ar lywodraeth fwyafrifol.

Gwariwyd cyfalaf gwleidyddol y fuddugoliaeth etholiadol yn fuan iawn ar reolaeth y blaidd dros ddiwygiadau i'r setliad datganoli a gynigwyd gan adroddiad Comisiwn Richard ym Mawrth 2004. Argymhellodd yr adroddiad bŵerau deddfu cynradd i Gymru - ond gadawodd y cwestiwn o sut y dylid weithredu'r rhain i'r gwleidyddion.'

Taranodd ASau Llafur gwrth-ddatganoli yn erbyn yr hyn a welent yn lleihad o'u swyddogaeth yn San Steffan. Atebodd dadleuwyr o blaid datganoli y dylid cyflwyno'r pŵerau cynradd heb refferendwm. Roedd Morgan wedi sôn cyn hynny am yr angen am ddatganoli 'organig' ac felly roedd yn weddol fodlon ar y cyfaddawd a gafwyd trwy *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*. Dan y ddeddf, rhoddai 'Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol' (LCOs) hawl i'r Cynulliad i ddrafftio mesurau, a fyddai wedyn yn mynd gerbron y Senedd. Os na fyddai gwrthwynebiad, byddai'r Cynulliad yn rhydd i ddeddfu. Ar un olwg, roedd LCOs yn gam ymlaen. Nes iddynt gael eu cyflwyno, ni allai'r Cynulliad ond pasio deddfwriaeth eilradd neu ofyn i'r Senedd basio deddf ar ei ran. Eto i gyd, roedd hawl nacáu gan San Steffan o hyd.

Daeth y ffocws hwn ar fanylion technegol y cyfansoddiad ar draul materion eraill, megis rhestrau aros gofal iechyd. Bu'r rhain yn rhan fawr o etholiadau'r Cynulliad 2007 - etholiad olaf Rhodri Morgan fel Prif Weinidog. Cyn y gystadleuaeth, ymrwymodd i sefyll i lawr 'ymhell cyn' diwedd y trydydd Cynulliad. Ysgogwyd y penderfyniad gan ei awydd i beidio mynd 'ymlaen ac ymlaen' ac i gael ymdddeoliad a fyddai'n para am flynyddoedd yn hytrach na misoedd os oedd modd (Morgan, 285-98).

Ymddangosai ar y dechrau y byddai ymdddeoliad Rhodri Morgan yn dod yn gynt na'r disgwyl. Collodd Llafur bedair sedd, gan agor y drws i'r hyn a elwid yn 'Glymblaid Enfys' rhwng Plaid Cymru, y Ceidwadwyr, a Democratiaid Rhyddfrydol Cymru. Aeth y *Times* mor bell â chyhoeddi erthygl a honnai fod arweinydd Plaid Cymru, Ieuan Wyn Jones, ar fi cael ei benodi'n Brif Weinidog newydd.

Serch hynny, ar ôl dadlau mewnol ffyrnig cefnodd y Democratiaid Rhyddfrydol ar y Glymblaid Enfys. Gyda'i reddf wleidyddol arferol gwelodd Morgan ei gyfle, a rhwng teulchion a checur'r glymblaid fethedig, llwyddodd i gael y Cynulliad i'w gadarnhau yn Brif Weinidog llywodraeth Lafur leiafrifol. Trodd ei egni wedyn i lunio cytundeb gyda gwrthwynebwyr cenedlaetholgar Llafur, Plaid Cymru. Er mawr syndod iddo cefnogwyd y cytundeb hwn gan y mwyafrif llethol o aelodau Llafur. Dau fis ar ôl etholiad amhendant, roedd gan Gymru lywodraeth newydd - un a adlewyrchai edafedd 'coch a gwyrdd' athroniaeth wleidyddol Rhodri Morgan yn ôl ei hen gyfaill mynswol, Mike Sullivan. Mynnai Morgan nad cuddgenedlaetholwr mohono, eithr pleidiwr brwd y tir canol a lenwyd gan ddatganoli (Morgan, 332).

Teimlai Morgan fod pwysau negodiadau'r glymblaid wedi cyfrannu at y bygythiad calon a gafodd ychydig ddyddiau ar ôl i'r negodi orffen. Cymerodd hyn fel rhybudd i beidio gweithio mor galed, colodd 30 pwys a dechreuodd gerdded. Safodd i lawr fel Prif Weinidog yn Rhagfyr 2009 ac fe'i holynnwyd gan Carwyn Jones - un y byddai'n cyfeirio ato'n aml fel 'bachgen'. Ni fu fyth yn un am ôl-syllu'n fawreddog, a therfynodd ei sesiwn olaf o Gwestiynau'r Prif Weinidog trwy nodi faint yr oedd yn edrych ymlaen at dreulio mwy o amser yn ei ardd yn Llanfihangel-y-Pwll a gwyllo campau chwaraeon ei wirion.

Parhaodd Morgan yn Aelod Cynulliad tan 2011 - yn ddigon hir i weld Cymru'n pleidleisio'n bendant o blaid pŵerau deddfu cynradd. Yn ôl ei gyn-gynghorydd arbennig, Mark Drakeford, dangosai hyn fod degawd Rhodri Morgan yn ei swydd wedi cynorthwyo i drechu'r amheuaeth gychwynnol am ddatganoli. Cytuna Prys fod ei frawd wedi gweld y canlyniad yn gymeradwyaeth bersonol.

Yng ngeiriau Julie Morgan, roedd ymdddeoliad Rhodri 'so full and so fulfilled.' Yn ogystal â chyfrifoldebau garrdwriaethol ac fel tad-cu, gwasanaethodd yn ganghellor Prifysgol Abertawe, a byddai'n ymgyrchu'n rheolaidd dros Julie yn ei sedd Cynulliad yng Ngogledd Caerdydd.

Bu Rhodri Morgan farw o drawiad ar y galon ar 17 Mai 2017, ac fe'i clodforwyd yn syth fel 'tad y genedl'. Ac megis i danlinellu'r disgrifiad, daeth cannoedd o'r cyhoedd i wyluo ei angladd - seremoni ddyneiddiol a gynhaliwyd ar 31 Mai 2017 yn y Cynulliad - gan sefyll am oriau i dalu teyrnged i'w cyn-Brif Weinidog. Yn ôl Julie Morgan byddai Rhodri mwy na thebyg wedi chwerthin am y fath ddisgrifiad - yn un peth am na fyddai byth yn cymryd fawr o sylw o'r hyn a ddywedai sylwebwyr. Ac eto mae'n anodd osgoi'r casgliad na fuasai blagur bregus datganoli wedi bwrw gwreiddiau heb eu meithrin yn ofalus gan Rhodri Morgan - ac mae cyfforddusrwydd Cymru gyda hunan-lywodraeth heddiw yn arwydd sy'n coffáu hynny'n barhaus. Yn yr ystyr honno, plant Rhodri yw pob un o ddinasyddion Cymru.

## Awdur

Ioan Phillips

## Ffynonellau

Rhodri Morgan, *Rhodri: a political life in Wales and Westminster* (Cardiff 2017)

Gwybodaeth bersonol gan Prys Morgan

Cyfweliadau gyda Julie Morgan, Mark Drakeford, Michael German, Carwyn Jones a Nicholas Bourne

Patrick Hannan, ysgrif goffa, *The Guardian*, 18 Mai 2017

A. McSmith, 'Rhodri Morgan, obituary: Former Welsh First Minister nicknamed the "father of the nation", *The Independent*, 18 Mai 2017

Mike Sullivan, 'Rhodri Morgan: "half red Labour, half green Plaid", but loved by all', *The Conversation*, 18 Mai 2017

David Williamson, "'Tony Blair's snub was a blessing for Rhodri": Julie Morgan talks openly about the former First Minister's relationship with the ex PM, Wales Online, 25 Medi 2017

T. Rowlands, yn *Assembly handbook: the essential guide to the National Assembly for Wales* (Western Mail & Echo Ltd 1999)

Martin Shipton, *Poor man's parliament: ten years of the Welsh Assembly* (Bridgend 2011)

Aled Edwards, "'A Grief Observed': How devolution is reshaping our response to loss, Nation.Cymru, 19 Mai 2020

D. Moon, 'Rhetoric and policy learning: on Rhodri Morgan's 'Clear Red Water' and 'Made in Wales' health policies', *Public policy and administration* 28.3 (Gorffennaf 2013)

Socialist Health Association, 'Clear Red Water: Rhodri Morgan's speech to the National Centre for Public Policy, 11 Rhagfyr 2002

Richard Commission, 'Commission on the Powers and Electoral Arrangements of the National Assembly for Wales, Gwanwyn 2004

I. White, 'Report of the Commission on the Powers and Electoral Arrangements of the National Assembly for Wales', House of Commons Library Standard Note SN/PC/3018, 22 Ebrill 2004

D. Torrance, 'A process, not an event: Devolution in Wales, 1998-2020', House of Commons Library Briefing Paper CBP-8318, 6 Ebrill 2020

M. Cole a McAllister, 'Pioneering new Politics or Rearranging the Deckchairs? The 2007 National Assembly for Wales Election and Results', *Political quarterly* 78.4 (Hydref-Rhagfyr 2007), t. 539

WalesOnline: 'Rhodri's lifestyle change recipe', 19 Ionawr 2008

Cynulliad Cymru, Y Cofnod: Teyrngedau i'r cyn-Brif Weinidog Rhodri Morgan, 23 Mai 2017

## Darllen Pellach

Archifau LIGC: Papurau Prys Morgan: Letters from Rhodri Morgan, 1961-1963, 1961, 1962, 1962-1963

Archifau LIGC: Welsh Devolution Referendum, 1997

Erthygl Wicipedia: Rhodri Morgan

## Delweddau

Art UK: Rhodri Morgan (b.1939)

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 50957866

Wikidata: Q333141

**Dyddiad cyhoeddi:** 2021-07-20

**Hawlfraint Erthygl:** <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.



Arddull APA



Phillips, I., (2021). MORGAN, HYWEL RHODRI (1939 - 2017), gwleidydd. Y Bywgraffiadur Cymreig. Adferwyd 11 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c12-MORG-RHO-1939>



Preifatrwydd a Chwcis  
Hawffraint  
Y Prosiect  
Cymorth  
Cysylltu

LGC  
NLW

LLYFRGELL  
THE NATION



Yn ddiogel gyda  
Llywodraeth Cymru  
Secured by  
Welsh Government